LLANDUDNO GYHANESYDDOL

Mae'r Gogarth a Thrwyn y Fuwch wedi'u ffurfio'n bennaf o galchfaen, sy'n cael ei erydu'n hawdd gan ddŵr, gan ffurfio ogofau. Mewn llawer o'r ogofau hyn, darganfuwyd tystiolaeth bod pobl wedi bod ynddynt ers oesoedd cynhanesyddol.

Casgliad Tom Stone / *Tom Stone Collection*

Penglog, Pant y Wennol

Skull, Pant y Wennol

Ogof Kendrick sy'n dangos yr arwyddion cynharaf fod pobl wedi bod ynddi, ond, mae'n debyg fod Ogof Pant y Wennol wedi'i defnyddio fel ffau anifeiliaid hyd yn oed cyn hynny. Darganfuwyd esgyrn amrywiaeth o anifeiliaid yn yr ogof hon – udfil, blaidd, carw, mochyn a gafr – a hyd yn oed asgwrn ffêr rhinoseros gwlanog.

Darganfuwyd esgyrn dynol hefyd gan gynnwys penglog sy'n dyddio o 6,000 o flynyddoedd yn ôl. Ni wyddys os oedd pobl yn byw yn yr ogof, ond oherwydd yr offer a wnaed o gerrig a'r cregyn a ddarganfuwyd, tybir mai lloches heliwr ydoedd.

Casgliad Tom Stone / *Tom Stone Collection*

Rhicbren asgwrn, Pant y Wennol

Bone tally, Pant y Wennol

Ym 1898, darganfu dau fachgen, oedd yn chwarae ar y Gogarth, lwyth o'r Oes Efydd yn Ogof Colomennod oedd yn cynnwys dau glustdlws aur, bwyell efydd a theclyn, o bosibl mynawyd a ddefnyddid ar gyfer gweithio gyda lledr. Credir efallai bod yr aur wedi dod o'r Iwerddon.

Llun trwy garedigrwydd Amgueddfa Cymru / *Photo courtesy of National Museum Wales*

Clustdlysau Ogof y Colomennod

Pigeons' Cave earrings

Y safle mwyaf ysblennydd yn yr ardal, heb os nac oni bai, yw'r Mwyngloddiau Copr o'r Oes Efydd ar y Gogarth, y mwyngloddiau copr cynhanesyddol mwyaf a ddarganfuwyd yn y byd. Drwy archwilio'r mwyngloddiau yn yr 1980au, daethpwyd o hyd i nifer fawr o dwneli oedd yn dyddio'n ôl dros 4000 o flynyddoedd. Roedd cerrig mawr o'r traeth ac esgyrn anifeiliaid yn cael eu defnyddio fel teclynnau i echdynnu'r mwynau copr a oedd wedyn yn cael eu mwyndoddi a'u cymysgu gyda thun, o Gernyw mae'n debyg, i gynhyrchu efydd. Mae un amcangyfrif yn awgrymu y byddai 1,800 tunnell o gopr wedi'i echdynnu yn ystod yr Oes Efydd. Cafodd cymaint o gopr ei wneud fel bod archeolegwyr yn credu ei fod wedi'i allforio i Ewrop.

Mae'n bosib ymweld â rhai o'r twneli cynhanesyddol hyn ym Mwyngloddiau'r Gogarth, un o atyniadau twristiaid mwyaf syfrdanol Cymru.

LLANDUDNO PREHISTORY

The Great and the Little Orme are mainly made of limestone, which is eroded easily by water, forming caves. In several of these caves evidence has been found of occupation since prehistoric times.

Kendrick's Cave has the earliest signs of human occupation but Pant y Wennol Cave was probably used as an animal den from even earlier times. The bones of a variety of animals have been found in this cave – hyena, wolf, deer, pig and goat – even the ankle bone of a woolly rhinoceros.

Human bones, including a skull dating from 6,000 years ago, have also been discovered. It is not known whether the cave was actually lived in, but the stone tools and shells found suggest it could have been a hunter's shelter.

In 1898 two boys playing on the Great Orme discovered a Bronze Age hoard in Pigeons' Cave which included two gold earrings, a bronze axe and a tool, possibly an awl used for leather working. It is thought that the gold may have come from Ireland.

Llun trwy garedigrwydd Mwynglawdd y Gogarth / *Photo courtesy of the Great Orme Mines*

Mwyngloddiau'r Gogarth

Great Orme Mines

The most spectacular site in the area is undoubtedly the Bronze Age Copper Mines on the Great Orme, the largest prehistoric copper mines in the world to have been discovered. Mine exploration during the 1980s uncovered a maze of tunnels dating back over 4,000 years. Large beach stones and animal bones were used as tools to extract the copper ore which was then smelted and mixed with tin, probably from Cornwall, to produce bronze. One estimate suggests that 1,800 tonnes of copper could have been extracted during the Bronze Age. So much copper was produced that archaeologists believe it was exported to Europe.

It is possible to visit some of these prehistoric tunnels at the Great Orme Mines, one of Wales's most amazing tourist attractions.

Teclynnau mwyngloddio

Mining tools

Llun trwy garedigrwydd Mwynglawdd y Gogarth / *Photo courtesy of the Great Orme Mines*